Y
Comisiwn
Etholiadol

**Sefyllfaoedd a gweithdrefnau – DU a GI**

Refferendwm ar y system bleidleisio Seneddol 2011

# Caniatâd ar gyfer ymgyrchwyr refferenda

Mae'r ddogfen hon ar gyfer ymgyrchwyr cofrestredig mewn refferenda, sydd eisiau gwybod rhagor ynghylch sut i wirio caniatad ar gyfer rhoddion.

Cynnwys:


Pwy sy'n ganiataol

Sut i wneud gwiriadau

Beth sydd angen ei gofnodi

## Termau ac ymadroddion rydyn ni'n eu defnyddio

Rydyn ni'n defnyddio '**rhaid**' pan ydyn ni'n cyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol penodol. Rydyn ni'n defnyddio '**dylai**' ar gyfer eitemau rydyn ni'n eu hystyried i fod yn isafswm ar gyfer arfer da, ond nad ydyn nhw'n ofynion cyfreithiol.

Does dim rhaid ichi ddilyn y canllawiau hyn, ond os ydych chi, fel arfer byddwch chi'n gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

## Ein hagwedd tuag at orfodi

Os nad ydych chi'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol efallai byddwch chi neu eich mudiad yn agored i sancsiynau sifil neu droseddol. Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth ynghylch agwedd y Comisiwn tuag at orfodi ar www.electoralcommission.org.uk/party-finance/enforcement.

# Caniatâd ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm

## Mae'r ddogfen hon ar gyfer:

Ymgyrchwyr cofrestredig mewn refferenda sydd eisiau gwybod rhagor ynghylch sut i wirio a yw rhoddwr neu fenthyciwr yn ganiataol.

## Mae hyn yn cynnwys:

- Pwy sy'n rhoddwr neu fenthyciwr caniataol
- Sut i wneud gwiriadau ynghylch caniatâd
- Beth sydd angen ei gofnodi

## Dogfenni cysylltiedig:

- Trosolwg o roddion ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm
- Trosolwg o fenthyciadau ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm

## Papurau arbenigol

- Rhoddion oddi wrth ymddiriedolaethau

2

# Crynodeb

Rheoleiddir rhoddion a benthyciadau i ymgyrchwyr cofrestredig mewn refferenda gan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda (PPERA).

Gellir eu derbyn oddi wrth rhai ffynonellau yn unig, yn bennaf sy'n seiliedig yn y DU.

Mae'r canllawiau hyn yn egluro sut i wirio a allwch chi dderbyn rhodd neu fenthyciad oddi wrth ffynhonnell neilltuol, gan ddweud wrthych chi ba wybodaeth sydd angen ei chofnodi.

Bydd y wybodaeth rydych chi'n ei chofnodi'n eich helpu i gyflawni'ch cofnod inni ar ôl y refferendwm.

# Gwirio caniatâd

Cyn bod ymgyrchwr refferendwm cofrestredig yn derbyn unrhyw rodd neu fenthyciad o fwy na £500, mae rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i:

- sicrhau ei fod yn gwybod pwy ydy'r ffynhonnell wirioneddol
- wirio bod y ffynhonnell yn ganiataol

Yn y canllawiau hyn, rydyn ni'n defnyddio 'rhoddwr' i gyfeirio at roddwyr ac at fenthycwyr ill dau.

## Pwy sy'n gyfrifol am wirio caniatâd?

Mae rhaid i ymgyrchwyr benodi a chofrestru 'person cyfrifol' gyda ni. Mae rhaid i'r perdon cyfrifol sicrhau bod yr ymgyrchwr yn cydymffurfio â'r rheolau.

Mae hyn yn cynnwys cynnal systemau addas i sicrhau yr ymdrinir â rhoddion a benthyciadau'n gywir.

Mae rhaid i swyddogion eraill o fewn y mudiad roi gwybodaeth berthnasol i'r person cyfrifol os yw'n rhesymol i ofyn iddo wneud felly.

## Am faint o amser ydw i'n gorfod gwirio caniatâd?

Cyn gynted â'ch bod chi'n derbyn rhodd, mae rhaid ichi sicrhau eich bod yn gwybod pwy yw'r rhoddwr, a dechrau gwirio ei ganiatâd. Mae gennych 30 diwrnod i benderfynnu a ddylech chi dderbyn neu wrthod y rhodd.

Mae rhaid ichi gyflawni gwiriadau caniatâd ar fenthycwyr cyn cytuno ar fenthyciad.

Hyd yn oed os ydych chi wedi gwneud gwiriad mewn cysylltiad â rhodd neu fenthyciad gynharach oddi wrth yr un ffynhonnell, mae rhaid ichi wneud gwiriad newydd ymhob achos newydd i sicrhau nad oes dim wedi newid.

Dylech chi gadw cofnodion o bob gwiriad caniatâd i ddangos eich bod wedi dilyn y rheolau.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y dogfenni hyn:

- Cyflwyniad i ymgyrchu mewn refferendwm
- Trosolwg o roddion ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm
- Trosolwg o fenthyciadau ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm

Pwysig

Os nad yw'n gwbl eglur pwy y dylech chi ymdrin ag e fel rhoddwr, dylech chi wirio'r ffeithiau er mwyn gwneud yn siwr.

# 4

## Beth ydy ffynhonnell ganiataol?

Ffynhonnell ganiataol yw:

- Unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar Gofrestr Etholwyr DU, gan gynnwys etholwyr tramor a'r rhai hynny sy'n gadael cymynroddion.
- Cwmni sy'n gofrestredig yn y DU a sy'n ymgorfforedig o fewn yr Undeb Ewropeaidd (UE) a sy'n cynnal busnes yn y DU.
- Undeb Llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU.
- Cymdeithas Adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU.
- Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (LLP) sydd wedi'i chofrestru yn y DU sy'n cynnal busnes yn y DU.
- Cymdeithas Lesiant sydd wedi'i chofrestru yn y DU.
- Cymdeithas anghorfforedig sy'n seliedig yn y DU a sy'n cynnal busnes neu weithgareddau eraill yn y DU.

Hefyd gallwch chi dderbyn rhoddion, ond nid benthyciadau, oddi wrth rhai fathau o ymddiriedolaeth. I gael rhagor o wybodaeth, gweler Papur arbenigol: Rhoddion oddi wrth ymddiriedolaethau.

Pwysig

Mae rhaid ichi beidio â derbyn rhoddion na benthyciadau oddi wrth blaid wleidyddol, oni bai eich bod wedi cael eich enwi fel ymgyrchwr arweiniol mewn refferendwm.

Dydy elusennau ddim yn cael gwneud rhoddion gwleidyddol odan y gyfraith elusennau, hyd yn oed os ydyn nhw'n syrthio i mewn i un o'r categorïau o roddwyr caniataol.

Os ydych chi'n gwybod bod rhoddwr yn elusen, dylech chi sicrhau ei fod yn cael cyngor oddi wrth y Comisiwn Elusennau

# Sut i wirio a yw unigolyn yn ganiataol

## Beth sy'n gwneud i unigolyn fod yn ganiataol?

Mae rhaid i unigolion fod ar gofrestr etholwyr yn y DU yn ystod cyfnod y rhodd neu'r benthyciad. Mae hyn yn cynnwys etholwyr tramor.

Os ydych chi'n derbyn cymynrodd, a roedd yr unigolyn ar y gofrestr etholwyr ar unrhyw amser yn ystod y bum mlynedd cyn ei farwolaeth, gallwch chi dderbyn
y rhodd.

## Sut ydych chi'n gwirio caniatâd?

Gallwch chi ddefnyddio'r gofrestr etholwyr i wirio a yw unigolyn yn ganiataol. Mae hawl i ymgyrchwyr cofrestredig dderbyn copi'n rhad ac am ddim o'r gofrestr etholiadol llawn.

Fel arfer cyhoeddir fersiwn newydd o'r gofrestr etholwyr ar 1 Rhagfyr bob blwyddyn, a mae'n cael ei diweddaru'n rheolaidd.

Dylech chi gysylltu â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol â'r cyngor lleol perthnasol i gael eich copi, gan egluro eich bod yn gofyn amdani fel ymgyrchwr refferendwm cofrestredig.

Hefyd dylech chi ofyn iddyn nhw anfon pob diweddariad ichi.

**Pwysig**

Mae rhaid ichi wirio'r gofrestr a'r diweddariadau'n ofalus i sicrhau bod y person ar y gofrestr ar y dyddiad rydych chi'n ei nodi ar y benthyciad, neu ar y dyddiad eich bod wedi derbyn y rhodd.

Mewn amgylchiadau arbennig, mae gan bobl gofrestriad dienw. Os yw rhoddwr wedi'i gofrestru'n ddienw, cysylltwch â ni am gyngor ar sut i gadarnhau caniatâd os gwelwch yn dda.

Mae rhaid ichi ddefnyddio'r gofrestr ar gyfer gwirio a yw rhoddwr yn ganiataol, neu ar gyfer pwrpasau'r refferendwm, yn unig. Mae rhaid ichi beidio â'i throsglwyddo i neb arall.

### Beth sydd angen ichi ei gofnodi?

Mae rhaid ichi gofnodi:

- Enw llawn y rhoddwr.
- Y cyfeiriad fel mae'n ymddangos ar y gofrestr etholwyr, neu os yw'r person yn etholwr tramor, ei gyfeiriad cartref.

Efallai bydd yn gymorth ichi nodi rhif etholiadol y person, fel cofnod o'ch gwiriad.

## Sut i wirio a yw cwmni yn ganiataol

### Beth sy'n gwneud i gwmni fod yn rhoddwr caniataol?

Mae cwmni'n ganiataol os yw'n:

- gofrestredig yn Nhŷ'r Cwmnïau
- incorporated in a Member State of the EU, and
- sy'n cynnal busnes yn y DU

Mae rhaid ichi sicrhau bod y cwmni'n bodloni pob un o'r tri maen prawf.

### Sut ydw i'n gwirio cofrestriad cwmni ac ymgorfforiad yn yr UE?

Dylech chi wirio'r gofrestr yn Nhŷ'r Cwmnïau, gan ddefnyddio'r wasanaeth wirio'r we sy'n rhad ac am ddim ar www.companieshouse.gov.uk.

Dylech chi edrych ar gofnod llawn y cwmni ar y gofrestr.

I wirio a yw'r cwmni'n ganiataol, mae angen ichi edrych ar ei rif cofrestredig. Bydd gan rai cwmnïau rif yn unig. Bydd gan gwmnïau eraill lythyren fel rhagddodiad i'r rhif.

Mae'r tabl isod yn dangos ichi a yw cwmni sydd â rhagddodiad neilltuol yn ganiataol, cyhyd â'i fod yn cynnal busnes yn y DU.

Defnyddiwch wasanaeth Tŷ'r Cwmnïau i wirio'r we, sy'n rhad ac am ddim, ar www.companieshouse.gov.uk

| Llythyren y rhagddodiad | Ydy hi'n ganiataol? |
| --- | --- |
| Nac ydy | Ydy |
| NI, SC | Ydy |
| FC, NF, SF | Ydy, os yw 'gwlad y tarddiad' ar gofnod y gofrestr yn Aelod-wladwriaeth o'r UE |
| OC3, SO3 | Ydy, fel partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig – gweler yr adran ar wahan isod |
| IP, SP, NP | Efallai – gweler cymdeithasau diwydiannol a darbodus yn yr adran' Mathau eraill o roddwyr' ar dudalen 10 |
| Unrhyw ragddodiad arall | Nac ydy |

## Sut ydych chi'n gwirio a yw'r cwmni'n cynnal busnes yn y DU?

Mae rhaid ichi ymfodloni bod y cwmni'n cynnal busnes yn y DU. Gall y busnes fod yn fusnes nad yw'n gwneud elw.

Hyd yn oed os oes gennych wybodaeth bersonol uniongyrchol o'r cwmni, dylech chi wirio cofrestr Tŷ'r Cwmnïau i weld a yw'r:

- Cwmni mewn ymddatodiad, yn segur, neu ar fin dirwyn i ben.
- Cyfrifon a'r datganiad blynyddol yn hwyr.

Efallai fod cwmni o hyd yn cynnal ei fusnes os yw e mewn ymddatodiad, yn segur neu'n hwyr wrth ffeilio dogfenni, ond dylech chi wneud gwiriadau ychwanegol i ymfodloni mai dyma'r sefyllfa iawn.

Ar gyfer unrhyw gwmni, dylech chi ystyried edrych ar:

- Safwe'r cwmni.
- Cyfeiriaduron ffôn a masnach perthnasol neu safweoedd ag enw da.
- Y cyfrifon diweddaraf a ffeiliwyd yn Nhŷ'r Cwmnïau.

Os nad ydych chi'n siwr o hyd a yw cwmni'n cynnal busnes yn y DU, dylech chi ofyn am gadarnhad ysgrifenedig ynghylch ei weithgareddau busnes oddi wrth gyfarwyddwyr y cwmni.

Os ydych chi'n ansicr o hyd a yw cwmni'n ganiataol, ffoniwch ni neu e-bostiwch ni am gyngor os gwelwch yn dda.

### Beth sydd angen ichi ei gofnodi?

Mae rhaid ichi gofnodi:

- Yr enw fel mae'n ymddangos ar y gofrestr.
- Cyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni.
- Rhif gofrestredig y cwmni.

# Partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig

### Beth sy'n gwneud i bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig fod yn roddwr caniataol?

Mae partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig (LLP) yn roddwr caniataol os yw'n:

- Gofrestredig fel LLP yn Nhŷ'r Cwmnïau.
- Cynnal busnes yn y DU.

### Sut ydych chi'n gwirio caniatâd?

Dylech chi wirio'r gofrestr yn Nhŷ'r Cwmnïau, gan ddefnyddio'r wasanaeth wirio'r we sy'n rhad ac am ddim ar www.companieshouse.gov.uk.

Mae angen ichi edrych ar rif gofrestredig yr LLP. Dim ond rhifau sy'n cychwyn ag OC3 neu SO3 sy'n LLP'au caniataol.

Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn yr adran flaenorol 'Sut ydych chi'n gwirio a yw'r cwmni'n cynnal busnes yn y DU?' ar y tudalen blaenorol.

Defnyddiwch wasanaeth Tŷ'r Cwmnïau i wirio'r we, sy'n rhad ac am ddim, ar www.companieshouse.gov.uk

### Beth sydd angen ichi ei gofnodi?

Mae rhaid ichi gofnodi:

- Yr enw fel mae'n ymddangos ar y gofrestr.
- Cyfeiriad swyddfa gofrestredig yr LLP.

# Cymdeithasau anghorfforedig

## Beth sy'n gwneud i gymdeithas anghorfforedig fod yn roddwr caniataol?

Mae cymdeithas anghorfforedig yn roddwr caniataol os:

- Oes ganddo fwy nag un aelod.
- Yw'r prif swyddfa yn y DU.
- Yw'n cynnal busnes neu weithgareddau eraill yn y DU.

## Sut ydych chi'n gwirio caniatâd?

Does dim cofrestr o gymdeithasau anghorfforedig.
Mae caniatad yn fater o ffeithiau sy'n benodol i bob achos.

Yn gyffredinol, dylai cymdeithas anghorfforedig gael:

- Aelodaeth sy'n adnabyddadwy, a
- Rheolau neu gyfansoddiad, a
- Bodolaeth sydd ar wahan i'w haelodau.

Er enghraifft, mae clybiau aelodau weithiau'n gymdeithasau anghorfforedig.

Os nad ydych chi'n siwr bod cymdeithas yn cwrdd â'r meini prawf, dylech chi ystyried a yw'r rhodd yn dod, mewn gwirionedd, oddi wrth unigolion oddi mewn iddi (yn hytrach na'r gymdeithas) neu os yw rhywun o fewn y gymdeithas yn gweithredu fel asiant i eraill.

Os ydych chi'n meddwl mai dyma'r gwirionedd, mae rhaid ichi wirio caniatad pob unigolyn sydd wedi cyfrannu mwy na £500 gan ymdrin â nhw fel y rhoddwyr.

Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth ynghylch cynnal busnes yn yr adran flaenorol 'Sut ydych chi'n gwirio a yw'r cwmni'n cynnal busnes yn y DU?' ar dudalen 7.

Os hoffech chi gael rhagor o ganllawiau ar ganiatad a chymdeithasau anghorfforedig, ffoniwch ni neu e-bostiwch ni os gwelwch yn dda.

> Os yw cymdeithas anghorfforedig yn gwneud rhoddion gwleidyddol sy'n dod i fwy na £25,000 o fewn blwyddyn galendr, dylech chi egluro iddyn nhw fod rhaid iddyn nhw ddatgan hyn inni.
>
> Gweler ein safwe neu ffoniwch ni i gael rhagor o wybodaeth.

## Beth sydd angen ichi ei gofnodi?

Bydd angen ichi gofnodi:

- Enw'r gymdeithas anghorfforedig.
- Cyfeiriad prif swyddfa'r cwmni.

# Mathau eraill o roddwyr

Mae'r tabl isod yn dangos ichi sut i wirio caniatad ar gyfer mathau eraill o roddwyr.

| Math o roddwr | Angen | Ble i wirio |
|---|---|---|
| Undeb Llafur | Wedi'i rhestru fel undeb llafur Gan y Swyddog Ardystio | Y Swyddog Ardystio http://www.certoffice.org |
| Cymdeithas Adeiladu | Cymdeithas Adeiladu o fewn ystyr y Ddeddf Cymdeithasau Adeiladu 1986 | Yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol http://mutuals.fsa.gov.uk |
| Cymdeithas ddarbodus lesiant/ diwydiannol | Wedi'i chofrestru o dan y Ddeddf Cymdeithasau Lesiant 1974 neu'r Ddeddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965 | Yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol http://mutuals.fsa.gov.uk |

## Beth sydd angen ichi ei gofnodi?

Bydd angen ichi gofnodi:

- Enw'r rhoddwr.
- Y cyfeiriad, fel mae'n ymddangos ar y gofrestr berthnasol.

# Sut y gallwn ni helpu

Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn y dogfenni cyfarwyddyd ein bod wedi'u hawgrymu yn y ddogfen hon, neu allwch chi weld ystod lawn ein canllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein safwe.

Os yw'n haws, gallwch chi gysylltu â ni hefyd ar un o'r rhifau ffôn neu un o'r cyfeiriadau e-bost isod. Rydyn ni yma i'ch helpu, felly cysylltwch os gwelwch yn dda.

Ffoniwch ni ar:

- **Lloegr**: 020 7271 0616 pef@electoralcommission.org.uk
- **Yr Alban**: 0131 225 0200 infoscotland@electoralcommission.org.uk
- **Cymru**: 029 2034 6800 infowales@electoralcommission.org.uk
- **Gogledd Iwerddon**: 028 9089 4020 infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ymwelwch â ni ar www.electoralcommission.org.uk

Rydyn ni'n croesawu adborth ar ein canllawiau – ebostiwch ni ar: pef@electoralcommission.org.uk

## Cyfieithiadau a fformatau eraill

Am wybodaeth ar gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall neu mewn fersiwn print-mawr neu Braille cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol os gwelwch yn dda:

Ffôn: 020 7271 0500
Ebost: publications@electoralcommission.org.uk